Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 4 Mehefin 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf 2025/26 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y sefyllfa alldro derfynol 2025/26 ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cynllun Ynni Ardal Lleol), y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i'w hystyried cyn cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) ar 19 Mehefin 2026.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. Ystyried y wybodaeth a'r penderfyniadau a geisiwyd yn Atodiad A.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gofynnir i'r CBC dderbyn sefyllfa alldro 2025/26 a rhoddir cyfle i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y cynigion yn Atodiad A ac i graffu'r wybodaeth cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r CBC.

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad A: | Adroddiad i gyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 19 Mehefin 2026 |
| Atodiad 1: | Sefyllfa alldro y CBC 2025/26 |
| Atodiad 2: | Sefyllfa alldro refeniw y Cynllun Twf 2025/26 |
| Atodiad 3: | Sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf |
| Atodiad 4: | Sefyllfa cyfalaf y Cynllun Twf |
| Atodiad 5: | Sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi 2025/26 |
| Atodiad 6: | Sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26 |

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle priodol i'r Is-bwyllgor graffu ar sefyllfa alldro 2025/26 cyn ei ystyried gan y CBC. Dylai aelodau fod yn fodlon bod y wybodaeth a gyflawnir yn ddigonol i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn unol â Chyfansoddiad y CBC ac egwyddorion llywodraethu da.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.